**Diweddariad Tim Rhanbarthol Dull Systemau Cyfan (Pwysau Iach)**

- Hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr Mapio Asedau wedi'i hwyluso gyda aelodau o is-grŵp Bwyd Sir Gâr - Hwyluso Mynediad Cynhwysol i Fwyd Cynaliadwy – ar Fferm Bremenda Isaf 14$^{eg}$ o Fai 2025. Y brif amcan ar ôl mynychu'r hyfforddiant yw i'r cyfranogwyr gynnal sesiwn grŵp gyda aelodau o'r gymuned i adeiladu map asedau ar gyfer Mynediad at Fwyd. Bydd hyn yn helpu i adeiladu perthnasau gyda phobl leol i gyd-dynnu atebion yn y maes gwaith hwn yn y dyfodol.
- Cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Dysgu Meddwl trwy' Systemau wedi'i gynnal ar lein (26$^{ain}$ o Orffennaf).
- Gweithdy wedi'i gynnal â holl cydlynwyr Partneriaethau Bwyd ar draws y rhanbarth (Hywel Dda a Bae Abertawe) dydd Llun 7$^{fed}$ o Orffennaf.
- Mae'r drws wedi'i agor yn Sir Benfro parthed: ymuno gyda'n gwaith a rydym wrthi'n rhannu'r gwaith yr rydym wedi eu cyflawni hyd yn hyn gyda nhw. Yn y cyfamser rydym yn awyddus i barhau'r sgwrs am weithio ar y cyd gyda BGC Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ac yn gobeithio yn y pen draw gall y tri BGC gweithio ar y cyd parthed: Mynediad at Fwyd.
- Disgwyl cyhoeddiad o Gynllun Cyflawni dwy flynedd Pwysau Iach: Cymru Iach (2025-2027) cyn gwyliau haf Llywodraeth Cymru.
- Lansiwyd ymgynghoriad Bwyta'n iach mewn ysgolion ar 20 Mai 2025 ac yn cau 29 Gorffennaf 2025. Mae Cymru ar flaen y gad yn y DU o ran darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae'r cam pwysig hwn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi plant a newyn, yn cefnogi dysgwyr i gyflawni, ac yn cyfrannu at wella iechyd, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru. Maent yn edrych i ddiweddaru: pa fwyd a diodydd y gellir eu darparu mewn ysgolion; canllawiau ar gyfrifoldebau dros hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Bydd y newidiadau hyn yn helpu plant i: ddatblygu arferion bwyta iach; cael mynediad at fwyd iachach yn ystod oriau ysgol; gwneud dewisiadau bwyd iach. Mae maeth da yn helpu plant i berfformio'n well a chyrraedd eu potensial llawn.